# Y Pwyllgor Deisebau

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 18 Chwefror 2014** |
| Amser: | **09:30 – 10:57** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_18_02_2014&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **William Powell (Cadeirydd)**<br>**Russell George**<br>**Bethan Jenkins**<br>**Joyce Watson**<br>**Mike Hedges (yn lle Joyce Watson)** |
| Tystion: | **Carl Sargeant**<br>**Rosemary Thomas, Llywodraeth Cymru**<br>**Joanne Smith, Llywodraeth Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Steve George (Clerc)**<br>**Kayleigh Driscoll (Dirprwy Glerc)**<br>**Kath Thomas (Dirprwy Glerc)**<br>**Helen Roberts (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Dirprwyodd Mike Hedges AC ar ran Joyce Watson AC am ran o'r cyfarfod.

## 2 Deisebau newydd

### 2.1P-04-535 Achubwch ein Gorsafoedd Tân

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at:

- y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth;
- y Prif Weinidog;

- Undeb y Brigadau Tân; ac
- Awdurdodau tân yng Nghymru

yn gofyn am eu barn ar y ddeiseb.

### 2.2P-04-536 Rhoi'r Gorau i Ffatrïoedd Ffermio Gwartheg Godro yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at:

- y Gweinidog Tai ac Adfywio; ac
- y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd

yn gofyn am eu barn ar y ddeiseb.

### 2.3P-04-537 Plannu Coed i Leihau Llifogydd

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at:

- y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd; ac
- y Gweinidog Tai ac Adfywio

yn gofyn am eu barn ar y ddeiseb.

## 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 3.1P-04-439 Diogelu coed hynafol a choed treftadaeth Cymru ymhellach

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog yn croesawu ei ymateb ac yn gofyn iddo hysbysu'r Pwyllgor:

- am strwythur ac aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen;
- a fyddai'r Gweinidog yn ystyried enwebai o Goed Cadw ar gyfer y Grŵp Gorchwyl a Gorffen; ac
- am ganfyddiadau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen unwaith y bydd wedi cwblhau ei waith ac unrhyw gynllun gweithredu dilynol.

Cytunodd y Pwyllgor hefyd i anfon manylion am y ddeiseb ac ystyriaeth y Pwyllgor ohono at y Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

### 3.2P-04-514 Dylid adeiladu gorsaf bŵer sy'n defnyddio glo glân o Gymru a/neu gorsaf ynni adnewyddadwy yn hytrach na gorsaf niwclear arfaethedig Wylfa B ar Ynys Môn

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at:

- y Gweinidog i ofyn a fydd yn ystyried gweithio gyda Hitachi ar yr opsiynau ar gyfer buddsoddi mewn technoleg glo glân yng Nghymru; a
- Hitachi ynghylch ei waith ar ddatblygu technoleg glo glân.

### 3.3P-04-452 Hawliau Cyfartal i Bobl Ifanc Tiwb-borthedig

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at:

- y Gweinidog yn gofyn am ei farn ar sut y bydd y ddeddfwriaeth a'r canllawiau ynghylch taliadau uniongyrchol, a fydd yn cael eu hailysgrifennu o ganlyniad i'r Bil Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), yn gwella'r sefyllfa, gan rannu hefyd sylwadau pellach y deisebydd ar yr anawsterau parhaus y mae rhai yn eu hwynebu; a
- Chyngor Caerffili ynghylch y pryderon am y taliad uniongyrchol.

### 3.4P-04-460 Moddion nid Maes Awyr

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- gau'r ddeiseb o ystyried y ffaith bod y deisebydd wedi nodi y gall y Pwyllgor ddod â'i waith yn hyn o beth i ben ac y bydd yn chwilio am drywydd arall yn sgîl penderfyniad y Gweinidog i gymeradwyo argymhelliad Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan i beidio ag argymell Pegvisomant; a
- monitro cylchrediad Datganiad y Gweinidog am y camau nesaf yn sgîl yr adolygiad o'r arfarniad o feddyginiaethau amddifad a thra amddifad yng Nghymru.

### 3.5P-04-466 Argyfwng Meddygol – Atal cyflwyno gwasanaeth iechyd o safon is yng ngogledd Cymru

### 3.6P-04-479 Deiseb Adran Pelydr-X ac Uned Mân Anafiadau Ysbyty Tywyn

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd yn sgîl sylwadau'r deisebydd y byddai:

- yn ysgrifennu eto at Brif Weithredwr dros dro Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn ceisio cadarnhad o'r sefyllfa ynglŷn â'r ddarpariaeth ar gyfer mân anafiadau ym mhractisiau meddygon teulu yn Nhywyn, ac
- yn gofyn am farn y deisebydd ar gyhoeddiad y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am yr astudiaeth o'r materion a'r cyfleoedd sy'n addas ar gyfer anghenion penodol y bobl sy'n byw yng nghanolbarth Cymru.

### 3.7P-04-454 Gwahardd yr Arfer o Ddal Swyddi fel Cynghorydd ac fel Aelod Cynulliad ar yr un Pryd

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i gyfeirio'r ddeiseb at y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol i'w hystyried ar y cyd â Gorchymyn Drafft Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso).

### 3.8P-04-458 Cadwch Addysg Bellach yn y Sector Cyhoeddus

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd fod pwyntiau 1, 2 a 4 o'r ddeiseb ar ei hôl hi ac ni ddylid bwrw ymlaen â hwy ymhellach ac y dylid ystyried cau'r ddeiseb.  Fodd bynnag, cyn gwneud hynny, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog Addysg a Sgiliau am bwynt 3 a gofyn am amserlen ar gyfer cyflwyno contract Cymru gyfan ar gyfer darlithwyr addysg bellach.

### 3.9P-04-489 Deddf genedlaethol i Gymru ar dai fforddiadwy ac â blaenoriaeth

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i gau'r ddeiseb yn sgîl datganiad clir y Gweinidog am bolisi'r Llywodraeth mai cynllunio lleol a ddylai benderfynu ynghylch anghenion tai lleol.

### 3.10 P-04-510 Ymchwiliad Cyhoeddus i achos Breckman yn sir Gaerfyrddin

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd y byddai'n gofyn am esboniad cyfreithiol cyn bwrw ymlaen.

## 4 P-04-472 Gwnewch y Nodyn Cyngor Technegol Mwynau yn ddeddf

Atebodd Carl Sargeant AC gwestiynau'r Pwyllgor gyda Joanne Smith a Rosemary Thomas yn ei gynorthwyo.

**TRAWSGRIFIAD**

View the meeting transcript.